## Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
## Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Ystadegau Gwladol
## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2019
## Parc Cathays, Caerdydd

### Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Phillip | Barlow | PB | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Chris | Clarke | CC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Daniel | Cummings | DC | Data Cymru |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Helen | Jones | HJ | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Wanda | Kirby | WK | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Duncan | McKenzie | DM | Data Cymru |
| Aine | McGuire | AM | SensibleCode.io |
| William | Miles | WM | Cyngor Sir Fynwy |
| Jenny | Murphy | JM | Data Cymru |
| Rhys | Powell | RP | GIG Cymru |
| Jon | Radcliffe | JR | Chwaraeon Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Gâr |
| Andrew | Stephens | AS | Data Cymru |
| Alison | Vaughan | AV | Cyngor Sir Ceredigion |
| Huw | Bowen | HB | Llywodraeth Cymru |

### Cofnodwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jamie | Cleves | JC | Llywodraeth Cymru |
| Dhilia | Chiwara | DC | Llywodraeth Cymru |
| Melaine | Brown | MB | Llywodraeth Cymru |

### Siaradwyr nad oeddent yno drwy'r dydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gareth | Brand | | Llywodraeth Cymru |
| Melaine | Brown | | Llywodraeth Cymru |
| Luned | Jones | | Llywodraeth Cymru |
| John | Morris | | Llywodraeth Cymru |
| Sarah | James | | Llywodraeth Cymru |
| Claire | Rayner | | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Susan | Barton | | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

### Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Tom | Brane | Data Cymru |
| Janine | Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rhys | Fidler | Data Cymru |
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Leanne | John | Dinas a Sir Abertawe |
| Geraint | Morgan | Cyngor Sir Powys |
| Nita | Sparkes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
| | Fe wnaeth GJ ddechrau'r cyfarfod a chroesawu pawb. | |
| **2** | **Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a'r diweddaraf am bwyntiau gweithredu** | |
| | Trafodwyd pwynt gweithredu 4 o'r cyfarfod blaenorol:<br><br>Dywedodd DM fod Data Cymru yn paratoi i sefydlu trefniant consortiwm newydd gyda CACI ar gyfer data 'Paycheck' ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), gan ei fod ar hyn o bryd yn nhrydedd blwyddyn trefniant 3 blynedd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio ar gyfer Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), ac maent yn awyddus i barhau i'w ddefnyddio; mae'r costau tua £2.5 i £3k y flwyddyn ymhob awdurdod lleol. Mae CACI yn datblygu set data sy'n defnyddio offer lefel LSOA i edrych ar ddisgwyliad oes. Cafwyd trafodaeth am ystadegau incwm ar sail data gweinyddol (arbrofol) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac sy'n rhad ac am ddim ac ar gael i'r cyhoedd, ond mae'r setiau data yn defnyddio dulliau gwahanol.<br>Dywedodd GJ fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu parhau i ddatblygu eu dull gweinyddol fel bod modd cyhoeddi amcanestyniadau incwm fel ystadegau swyddogol erbyn 2022 ar lefel LSOA. Eu nod yw creu cynnwys sy'n diwallu anghenion partneriaid ac yn meithrin perthnasoedd newydd, ac maent yn chwilio am adborth ar y data a gyhoeddwyd eisoes.<br><br>Dywedodd JM fod data nesaf 'Paycheck' i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Medi. Dywedodd hefyd fod Experian hefyd yn cynhyrchu amcanestyniadau ar sail incwm, sy'n ddrutach. O ran trefniadau'r consortiwm, y cynllun presennol yw trafod yr amseru, trefnu cyfarfod â CACI ac efallai cael y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gymryd rhan. | **Cam Gweithredu:** Llywodraeth Cymru i ddosbarthu dolen i amcanestyniadau incwm gweinyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br><br>**Cam Gweithredu:** DM i fwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer mynd ati fel consortiwm i brynu data CACI yn y dyfodol |
| **3** | **Adolygu papurau gwybodaeth** | |
| | Dywedodd GJ fod y diweddaraf o bapur Chwarterol Ystadegau Cymru i fod i gael ei gyhoeddi y mis nesaf (Mawrth). Rhoddodd SL wybod i'r grŵp fod yr ymgynghoriad ar MALIC wedi dod i ben. Daeth mwy na 40 o ymatebion i law. Mae'r tîm yn mynychu cyfarfodydd grŵp parth gyda'r nod o gyhoeddi ymateb cyn y Pasg. Dywedodd SL hefyd fod amcanestyniadau newydd o'r angen am dai wedi cael eu cyhoeddi ar 30/01/19.<br>Dywedodd GJ fod tîm arolwg masnach newydd wedi'i sefydlu yn Llywodraeth Cymru. O ran rhagolygon poblogaeth, trafodwyd pryd yw'r amser gorau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf nesaf o ystyried rhai pethau, e.e. amcanestyniadau angen am dai, amseriad setliad llywodraeth leol, Brexit ac ati. Cytunwyd i anfon neges e-bost at grŵp WASP i gael adborth am amseriad yr wybodaeth ddiweddaraf nesaf am yr amcanestyniadau poblogaeth.<br><br>Dywedodd GJ hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn cyn bo hir am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Arolwg ar y Defnydd o'r Gymraeg, sydd ar y gweill. Holodd yr aelodau am lefel y dadansoddiad daearyddol a fydd ar gael.<br><br>O ran papur diweddaru Data Cymru:<br>• Mynegodd GJ ddiddordeb mewn unrhyw wybodaeth a gesglir gan ymarferiad Data Cymru ar y ffordd<br>• Bydd Canllaw Gwerthuso yn cael ei lansio cyn bo hir. Bydd yr aelodau'n cael dolen<br>• Trafodwyd cysylltiadau â WISERD a Chanolfan Polisi Cyhoeddus | **Cam Gweithredu:** Llywodraeth Cymru i anfon neges e-bost ar aelodau grŵp WASP i gael adborth am amseriad y diweddaraf o ran amcanestyniadau poblogaeth.<br><br>**Cam Gweithredu:** Data Cymru/Ystadegau Llywodraeth Cymru i gynllunio gweminar i rannu profiad a chyngor ynglŷn â defnyddio Power BI ac offer tebyg |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru ynglŷn â gwella dealltwriaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy ymchwil academaidd<br>• Gwahoddir yr aelodau i gysylltu â Data Cymru os ydynt yn defnyddio Daffodil Cymru gan fod trefniadau ar gyfer ei letya yn symud i Data Cymru<br>• Fe wnaeth trafodaeth ar ddefnyddio offer Power BI arwain at drefnu gweminar i rannu profiad a dysgu, gyda siaradwyr blaenllaw. Dywedodd VD fod Caerffili wrthi'n gweithio â Data Cymru i ddigideiddio eu hasesiad Llesiant. Mae Powys hefyd wedi bod yn creu tudalennau Llesiant<br>• Dywedodd JR fod ganddo ddiddordeb yn y gwaith ar ymddygiad iechyd plant oedran ysgol, a gweithio'n agosach gydag eraill ar arolygon plant<br>• Soniodd DC am y gwaith sy'n cael ei wneud ar Ddata Agored, a'r mathau o wybodaeth sydd o fudd i gyrff cyhoeddus ac a allai fod ar gael. | |
| **4** | **Defnyddio Mynegai Llefydd Llewyrchus a data tueddiadau'r dyfodol yng Ngwent** | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan VD i roi gwybod i'r grŵp am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngwent. Penderfynodd Gwent ddefnyddio'r Mynegai Hapusrwydd, y Mynegai Lleoedd Llewyrchus a phrosiect Dyfodol Gwent i lenwi bylchau yn y dystiolaeth. Ar Fynegai Lleoedd Llewyrchus, mae fersiwn newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2019 ac mae'n defnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'n debygol o gael ei rhyddhau ym mis Mawrth. Bydd Gwent yn defnyddio'r wybodaeth o ddatganiad nesaf y Mynegai. Mae'r Mynegai yn darparu ffocws gwahanol o lesiant i awdurdodau lleol, ond dylid ei ddefnyddio ar y cyd â mynegeion neu offer eraill. Mae'r diffiniad yn defnyddio model rhyngwladol ar gyfer llesiant.<br><br>Dywedodd VD wrth y grŵp hefyd fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi cynnal arolwg ar-lein ar gyfer trigolion yr ardal a chydweithwyr, i gael eu barn am eu llesiant personol eu hunain (Pwls Hapusrwydd). Er bod rhai canlyniadau defnyddiol, maent yn annhebygol o'i gynnal eto yn y dyfodol agos. Comisiynwyd gwaith Dyfodol Gwener i ystyried senarios, tueddiadau a materion a allai amharu yn y dyfodol, er mwyn cyfrannu at y gwaith cynllunio tymor hir. Cynhaliwyd Cynhadledd Dyfodol Gwent ym mis Tachwedd 2018, ac yna gweithdai yn ardaloedd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent. Dylai'r aelodau gysylltu â VD os ydynt eisiau rhagor o wybodaeth am y gwaith. | **Cam Gweithredu:** VD i rannu adroddiad Dyfodol Gwent ac i ddosbarthu dolenni |
| **5** | **Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata, adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru** | |
| | Dywedodd AS fod astudiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael ei chyhoeddi yn Rhagfyr 2018: 'Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata' gydag adroddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Ionawr, a thynnu sylw at y ffordd o ddelio â'r astudiaeth a'r prif ganfyddiadau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y dylai awdurdodau lleol gael gweledigaeth glir sy'n trin data fel adnodd allweddol. Roedd yr argymhellion eraill yn ymwneud â safonau data, systemau archwilio data a hyfforddiant.<br>Bu'r aelodau yn trafod faint o ran a gawsant yn y gwaith. Dywedodd PB eu bod yn ceisio mapio'r holl systemau i ganfod y data; y bwriad wedyn yw cynnal arolwg.<br><br>Gall Data Cymru helpu i ddod â phobl o'r awdurdodau lleol at ei gilydd i drafod data a materion digidol. Y nod yw cael yr awdurdodau lleol i gydweithio. Holodd y grŵp a yw Cymru ymhell ar ôl Lloegr a'r Alban. Atebodd AS nad yw Cymru ar ei hôl hi o gwbl. Dywedodd hefyd sut mae Comisiwn Geo-ofodol ar y gweill, gan olygu y bydd mwy o ddata ar gael. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Y diweddaraf am bapur gwyn y Cyfrifiad ac ymateb i'r ymgynghoriad ar Allbynnau** | |
| | Rhoddodd CR ac SB yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynlluniau Cyfrifiad 2021<br>• Cyhoeddwyd papur gwyn ar y Cyfrifiad yn Rhagfyr 2018<br>• Trafodwyd y ffaith fod y Cyfrifiad yn digwydd ar-lein yn bennaf er mwyn i bobl allu cymryd rhan pryd a sut maent eisiau, a chynllunir cymorth drwy wasanaethau digidol<br>• Y pynciau newydd a gyhoeddwyd oedd cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd a'r lluoedd arfog<br>• Bydd yr holiadur ar-lein ar gael yn Gymraeg, a chedwir y prif gwestiwn am iaith<br>• Roedd yr amserlen yn cynnwys dyddiad Ymarfer y Cyfrifiad, sef 13 Hydref 2019<br>• Sioeau teithiol ar gyfer y Cyfrifiad yn dechrau ym mis Mawrth, gyda gweithdai i drafod allbynnau'r cyfrifiad ac ystadegau'r boblogaeth. Cynllunio ar gyfer System Ledaenu Hyblyg fel bod defnyddwyr y data yn gallu cael gafael ar ddata a chreu eu tablau eu hunain<br>• Mae rhai ystadegau incwm gweinyddol wedi cael eu cyhoeddi, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu eu helaethu er mwyn llunio data o ardal lai o faint<br>• Mae rhaglen ddadansoddol wrthi'n cael ei hystyried eisoes. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwahodd aelodau i awgrymu dadansoddiadau polisi allweddol y gellid eu hystyried ar gyfer y rhaglen ddadansoddol. Dyma'r meysydd y soniwyd amdanynt: dadansoddiadau i gefnogi asesiadau llesiant, gwybodaeth am gydraddoldeb gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, a phwysigrwydd data am y lluoedd arfog mewn rhai meysydd. | **Cam Gweithredu:** Dosbarthu gwybodaeth am Sioeau Teithiol y Cyfrifiad<br><br>**Cam Gweithredu:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol i anfon enwebiadau awdurdodau lleol ar gyfer Rheolwyr Cyswllt y Cyfrifiad a Rheolwyr Cyswllt y Cyfrifiad yng Nghymru.<br><br>**Cam Gweithredu:** Pawb – cyfrannu syniadau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddadansoddiadau o bolisïau allweddol ar gyfer datblygu Rhaglen Ddadansodol y Cyfrifiad |
| **7** | **Y diweddaraf am Ystadegau Tai: Arolwg Cyflwr Tai Cymru; ac ar waith newydd ar yr Angen a'r Galw am Dai** | |
| | Cyflwynodd GB ganlyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar o Arolwg Cyflwr Tai Cymru :<br>• Roedd Arolwg Cyflwr Tai Cymru wedi cael sampl o 2,500 o gartrefi<br>• Y cyflwr yn gwella ymhob math o ddeiliadaeth<br>• Cymru sydd â'r stoc dai hynaf yn y DU i gyd<br>• Mae tai cymdeithasol o ansawdd gwell na thai preifat<br>Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd ar waith i greu Adnodd Dadansoddi Stoc Dai. Awgrymwyd ymchwilio i ddata Arbed a'r Ymddiriedolaeth Carbon. Cafwyd trafodaeth am amcanestyniadau tlodi tanwydd, a fydd ar gael yn nes ymlaen yn y flwyddyn<br><br>Rhoddodd MB gyflwyniad ar yr amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar o ran yr angen am dai. Awgrymwyd ychwanegu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>Soniodd SL hefyd am ddatblygiadau eraill ym maes ystadegau tai:<br>• Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn paratoi i lunio amcanestyniadau o farwolaethau ymysg pobl ddigartref ar lefel awdurdodau lleol; a'r<br>• gwaith sy'n cael ei wneud yn DU ar argaeledd a chydlyniant ystadegau tai. | **Cam Gweithredu:** Ychwanegu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol at agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor |

| 8 | **Cerrig Milltir Cenedlaethol** | |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad gan GJ<br>Fe wnaeth yr ymgynghoriad ynglŷn â gosod Cerrig Milltir Cenedlaethol ddechrau yn ddiweddar ac mae ymlaen tan 19 Ebrill. Mae'n awgrymu meini prawf i ystyried gweithio gyda nifer lai o ddangosyddion er mwyn canolbwyntio ein hymdrechion ar gael y canlyniadau gorau i gyflawni'r saith nod llesiant. Galwyd ar bawb i gyfrannu a rhannu syniadau gan ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn gweithio â rhanddeiliaid ac arbenigwyr i osod y cerrig milltir.<br><br>Cadarnhaodd GJ y bydd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol i fesur y cerrig milltir yn cael eu diogelu, ond nid o reidrwydd bob blwyddyn, e.e. bydd cwestiwn am iechyd meddwl bob yn ail flwyddyn. Cafodd prosiect Cymru Fyw, dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, ei drafod a chafodd awdurdodau lleol eu hannog i gyfrannu at y gwaith o wirio bod y canlyniadau'n wir ar lawr gwlad.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr ar ffordd o ddelio â phob carreg filltir benodol, lle rydym ni eisiau bod yn y dyfodol ac ystyried y dulliau gorau i gyrraedd y nodau hyn. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn hefyd a oes angen ailedrych ar rai dangosyddion cenedlaethol, a'u diwygio. | **Cam Gweithredu:**<br>Ychwanegu'r prosiect Cymru Fyw at agenda'r Pwyllgor Cyswllt Ystadegol yn y dyfodol |
| 9 | **Y diweddaraf am symud gwefan Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru** | |
| | Dywedodd JM mai'r bwriad yw bod y wefan newydd ar gyfer Ystadegau ac Ymchwil yn dod yn weithredol ddiwedd mis Chwefror. Bydd yn addas ar gyfer ffonau symudol a bydd yr allbynnau yn cael eu grwpio mewn cyfresi fel ei bod yn hawdd canfod datganiadau cyfredol a blaenorol. Bydd yn haws cyfeirio defnyddwyr ystadegau at gasgliadau o ystadegau. Bydd yn golygu bod modd cyhoeddi allbynnau mewn HTML. Cyhoeddir blog cyn bo hir i drafod y newidiadau, a bydd trydariadau pan fydd yn weithredol. Bydd yr hen wefan yn parhau tan yr haf, ac yna bydd yn cael ei diffodd. Ni fydd StatsCymru yn newid. | |
| 10 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Trafodwyd y canlynol:<br>1. Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi agor ymgynghoriad yn ddiweddar ynglŷn ag ailenwi'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) yn y DU<br>2. Mae gwaith yn cael ei wneud yng ngwasanaethau ystadegol Llywodraeth Cymru ar broffiliau rhanbarth ynglŷn â pha ddata sydd ar gael ar lefel ranbarthol<br>3. Mae gwefan newydd "Deall Lleoedd Cymru" ar y gweill, sy'n golygu bod modd dod â data at ei gilydd ar gyfer lleoedd penodol. Comisiynwyd gwaith, ac mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi. Mae WISARD yn gysylltiedig â'r gwaith o gynllunio i lansio'r prosiect<br>4. BREXIT: sefydlu tîm masnach a mudo yn Llywodraeth Cymru. Trafod sut gallai effeithio ar awdurdodau lleol o ran casglu data. Holodd SL pa baratoadau y gallai awdurdodau lleol fod wedi eu gwneud. Mynegwyd pryderon ynglŷn â sut gallai effeithio ar faterion rhannu data rhwng busnesau ac awdurdodau lleol a gweddill Ewrop<br>5. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Llandudno ar 6 Mehefin 2019. Dyma eitemau posibl ar gyfer yr agenda:<br>o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol<br>o Proffiliau Rhanbarthol<br>o Sensible Code<br>o Deall Lleoedd Cymru<br>o Cyfrifiad<br>o Prosiect Cymru Fyw | **Cam Gweithredu:** Data Cymru i gysylltu â thîm daearyddiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael gwybod a ydynt yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ynglŷn ag enwi MSOAau |

| Rhi f | Crynodeb o'r Camau Gweithredu | |
|---|---|---|
| **1.** | Llywodraeth Cymru i ddosbarthu dolen i amcanestyniadau incwm gweinyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol | **GJ/SL – cynhwyswyd yn y Cofnodion** |
| **2.** | DM i fwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer mynd ati fel consortiwm i brynu data CACI yn y dyfodol | **DM** |
| **3.** | Llywodraeth Cymru i anfon neges e-bost at aelodau grŵp WASP i gael adborth am amseriad yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amcanestyniadau poblogaeth. | **GJ/SL - wedi cwblhau** |
| **4.** | Data Cymru/Ystadegau Llywodraeth Cymru i gynllunio gweminar i rannu profiad a chyngor ynglŷn â defnyddio Power BI ac offer tebyg | **Data Cymru/Llywodraeth Cymru** |
| **5.** | VD i rannu adroddiad Dyfodol Gwent a dosbarthu dolenni | **VD** |
| **6.** | Dosbarthu gwybodaeth am Sioeau Teithiol y Cyfrifiad | **Llywodraeth Cymru - wedi cwblhau** |
| **7.** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol i anfon enwebiadau awdurdodau lleol ar gyfer Rheolwyr Cyswllt y Cyfrifiad a Rheolwyr Cyswllt Cynorthwyol y Cyfrifiad yng Nghymru. | **Tîm Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol** |
| **8.** | Pawb – cyfrannu syniadau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am ddadansoddiadau o bolisïau allweddol ar gyfer datblygu Rhaglen Ddadansoddol y Cyfrifiad | **Pob un** |
| **9.** | Ychwanegu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol at agenda nesaf y Pwyllgor | **Ysgrifenyddiaeth - wedi cwblhau** |
| **10.** | Ychwanegu'r prosiect Cymru Fyw at agenda'r Pwyllgor Cyswllt Ystadegol yn y dyfodol | **Ysgrifenyddiaeth - wedi cwblhau** |
| **11.** | Data Cymru i gysylltu â thîm daearyddiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael gwybod a ydynt yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ynglŷn ag enwi MSOA | **Data Cymru** |